The Planning Inspectorate
Yr Arolygiaeth Gynllunio

# Nodyn cyfarfod

| | |
|---|---|
| **Enw'r prosiect** | Fferm Wynt Alltraeth Mona |
| **Cyfeirnod ffeil** | EN010137 |
| **Statws** | **Terfynol** |
| **Awdur** | Yr Arolygiaeth Gynllunio |
| **Dyddiad** | 10 Hydref 2023 |
| **Cyfarfod gyda** | Mona Offshore Wind Limited |
| **Lleoliad** | Microsoft Teams |
| **Amcanion y cyfarfod** | Cyfarfod Diweddaru ynglŷn â'r Prosiect |
| **Cylchrediad** | Pawb a oedd yn bresennol |

## Crynodeb o'r pwyntiau allweddol a drafodwyd, a'r cyngor a roddwyd

Cynghorodd yr Arolygiaeth Gynllunio (yr Arolygiaeth) y byddai nodyn o'r cyfarfod yn cael ei wneud a'i gyhoeddi ar ei gwefan yn unol ag adran 51 Deddf Cynllunio 2008. Ni fyddai unrhyw gyngor a roddid o dan adran 51 yn gyfystyr â chyngor cyfreithiol y gallai'r ymgeiswyr (neu eraill) ddibynnu arno.

## Trosolwg o'r Prosiect

Disgrifiodd yr Ymgeisydd y Datblygiad Arfaethedig sydd â man glanio ger Llanddulas, Conwy a chysylltiad ag is-orsaf bresennol y Grid Cenedlaethol ym Modelwyddan. Mae rhan fach o ardal yr aráe, a oedd yn nyfroedd Lloegr yn flaenorol, wedi cael ei dileu bellach, sy'n golygu bod y Datblygiad Arfaethedig yn nyfroedd Cymru yn unig; newid a wnaed yn dilyn ymatebion i'r Ymgynghoriad Statudol diweddar.

Bydd y Gorchymyn Caniatâd Datblygu (DCO) yn cynnwys Trwydded Forol dybiedig (dML) ar gyfer asedau cynhyrchu a bydd cais ar wahân am Drwydded Forol yn cael ei gyflwyno i Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer yr asedau trawsyrru ar ôl i'r DCO drafft gael ei gyflwyno a'i dderbyn i'w archwilio.

Cadarnhaodd yr Ymgeisydd ei fod wedi parhau i weithio'n agos gyda thimau prosiect Fferm Wynt Alltraeth Morgan a Morecambe.

## Ymgynghoriad Statudol

Dywedodd yr Ymgeisydd fod yr Ymgynghoriad Statudol wedi cael ei gynnal o 19 Ebrill tan 4 Mehefin 2023, gan ddilyn ymlaen o Gwmpasu'r Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol (EIA) yn 2022 ac ymgynghoriad anstatudol yn gynnar yn 2023.

Roedd yr ymgynghoriad wedi'i seilio ar y Datblygiad Arfaethedig yn ei gyfanrwydd, gyda phwyslais ar leoliad tyrbinau gwynt, llwybr arfaethedig y ceblau a safle arfaethedig yr is-

orsaf, sut i leihau effeithiau adeiladu i'r eithaf a'r Adroddiad Effaith Amgylcheddol Rhagarweiniol (PEIR).

Roedd dulliau'r Ymgynghoriad Statudol yn cynnwys:

- Anfon cardiau post at 30,000 o gartrefi a busnesau yn y Brif Ardal Bostio (yn bennaf yn yr ardal lle y bwriedir gosod y seilwaith ar y tir);
- Anfon posteri at 22 o leoliadau ar draws ardal y Datblygiad Arfaethedig;
- Dau ddatganiad i'r wasg: un ar adeg lansio'r ymgynghoriad ac un arall bythefnos cyn i'r ymgynghoriad gau;
- Ymgyrch hysbysebu a oedd yn rhychwantu platfformau digidol;
- Chwe digwyddiad ymgynghori;
- Tri digwyddiad naid;
- Gweminar; a
- Ffurflen adborth.

Rhoddodd yr Ymgeisydd fanylion am broblem dechnegol yng Nghwestiwn 1.14 y ffurflen adborth, yr oedd 48 o unigolion wedi'i chyrchu. I fynd i'r afael â hyn, anfonodd yr Ymgeisydd lythyr a/neu neges e-bost yn gofyn am ailgyflwyno'r ffurflen, y mae pedwar unigolyn wedi ymateb iddynt. Cynghorodd yr Arolygiaeth yr Ymgeisydd i gofnodi'n llawn y camau a gymerwyd i ddatrys y mater yn yr Adroddiad Ymgynghori.

Dywedodd yr Arolygiaeth os yw'r Ymgeisydd yn bwriadu cynnal adolygiad o ddogfennau drafft, y byddai'n ddefnyddiol cynnwys yr Adroddiad Ymgynghori. Cadarnhaodd yr Ymgeisydd na ddisgwylir cynnal adolygiad o ddogfennau drafft yn ei raglen ar hyn o bryd, ond byddai'n rhoi gwybod i'r Arolygiaeth os byddai ei safbwynt yn newid.

Mae'r Ymgeisydd wedi amlygu buddiannau tir newydd, felly bydd yn cynnal ymgynghoriad wedi'i dargedu (dyddiadau i'w cadarnhau).

## Newidiadau i'r Prosiect

Dosbarthodd yr Ymgeisydd Gylchlythyr Ar y Tir ym mis Awst 2023 a Chylchlythyr Alltraeth ym mis Medi 2023 i randdeiliaid, a oedd yn ymateb i'r Ymgynghoriad Statudol ac yn cynnwys gwybodaeth ddylunio newydd.

### *Alltraeth*

Mae'r ffin llinell goch wedi newid yn sylweddol ers y PEIR, yn bennaf o ganlyniad i faterion morgludiant a mordwyo ac i ymateb i adborth gan y cyhoedd ar Ynys Manaw o ganlyniad i bryderon ynglŷn â hygyrchedd llwybr fferi.

Oherwydd bod cyflwr y tir yn anaddas, mae'r Ymgeisydd wedi dileu seilbyst unigol o'r Datblygiad Arfaethedig a fydd yn lleihau effeithiau sŵn tanddwr o ganlyniad.

Gwnaed ymrwymiadau ynglŷn â chyfeiriad gosodiad yr aráe, gan gynyddu'r lle rhwng tyrbinau o fewn yr aráe a sicrhau nad oes tyrbinau mewn ardaloedd allweddol llusgrwydo am gregyn bylchog er mwyn ymateb i bryderon pysgodfeydd. Nododd yr Ymgeisydd fod y gymuned bysgota wedi ymateb yn gadarnhaol i'r ymrwymiadau hyn yn ystod cyfarfod Allgymorth Pysgodfeydd diweddar.

Nododd yr Ymgeisydd fod uchafswm nifer y tyrbinau wedi lleihau o 107 i 96 a bod uchafswm maint rotor y tyrbin mwyaf wedi cynyddu.

Roedd diogelwch mordwyo yn risg allweddol a amlygwyd yn y PEIR a chynhaliodd yr Ymgeisydd fforwm mordwyo ar y cyd ar draws prosiectau fferm wynt Mona, Morgan a

Morecambe i drafod hyn. Bu ymgysylltiad parhaus â rhanddeiliaid a chynhaliwyd y pumed fforwm ymgysylltu ynglŷn â mordwyo a'r ail weithdy Peryglon Cronnol yn ddiweddar ym mis Medi.

Mae'r Ymgeisydd wedi gwneud ymrwymiadau ynglŷn â llai o amddiffyniad ceblau o fewn Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) Afon Menai a Bae Conwy a dileu ceblau rhynglanw i oresgyn pryderon a godwyd yn ystod y cam PEIR. Dywedodd yr Ymgeisydd ei fod wedi cytuno â Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) na fyddai unrhyw effeithiau uniongyrchol ar yr ACA, ei fod yn darparu gwybodaeth am effeithiau anuniongyrchol a'i fod yn gweithio tuag at gytuno ar ddim effeithiau niweidiol ar gyfanrwydd gyda CNC.

***Ar y Tir***

Mae'r Ymgeisydd wedi dewis un is-orsaf ar y tir ac wedi mireinio llwybr y ceblau ar y tir, gan wneud gwelliannau pellach.

Mae'r Ymgeisydd yn cynnal ymchwiliadau safle ac arolygon treialu torri ffosydd ar yr un pryd â bod yn ystyriol o geisiadau tirfeddianwyr i gydbwyso casglu data ac effeithiau posibl. Gwnaed sawl cais am fynediad i dir o dan a172 Deddf Tai a Chynllunio 2016, yr oedd un ohonynt yn ymwneud â safle'r brif is-orsaf; mae'r Ymgeisydd yn gobeithio symud ymlaen â chytundebau â'r tirfeddiannwr.

Mae'r Gweithgorau Arbenigol yn symud ymlaen yn dda a bydd cyfarfod Grŵp Llywio yn cael ei gynnal ar 17 Hydref 2023. Mae'r Ymgeisydd wedi bod yn trafod defnyddio Cytundeb Perfformiad Cynllunio i gaffael cymorth allanol i helpu Awdurdodau Cynllunio Lleol (ACLlau) i adolygu cynlluniau a mynychu cyfarfodydd Gweithgorau Arbenigol. Mae cyfyngiadau adnoddau'n rhwystro gallu'r ACLlau i ymgysylltu'n llawn â'r Ymgeisydd, gan gynnwys llunio Cytundeb Perfformiad Cynllunio, ac mae'n bosibl na fydd rhai dogfennau'n cael eu hadolygu gan yr ACLl mewn pryd ar gyfer cyflwyno'r dDCO. Cynghorodd yr Arolygiaeth yr Ymgeisydd i gofnodi ei ymdrechion i ymgysylltu.

Esboniodd yr Arolygiaeth fod cofrestrau ymrwymiadau yn fuddiol i amlinellu ymrwymiadau'r Ymgeisydd. Bydd yr Ymgeisydd yn manylu ar ei ymrwymiadau mewn 'Atodlen Lliniaru a Monitro' ar yr adeg cyflwyno.

## Ymholiadau'r Ymgeisydd

Dywedodd yr Ymgeisydd fod ei EIA wedi'i ysgrifennu gan ddilyn y Datganiadau Polisi Cenedlaethol (NPSau) drafft, ar yr un pryd â mynd i'r afael â'r NPSau presennol gan fod angen iddo fynd i'r afael â'r NPSau a fydd ar waith ar adeg y penderfyniad. Mae'n bwriadu defnyddio olrheiniwr NPS sy'n defnyddio'r NPSau presennol a drafft, sydd wedi cael ei wneud ar brosiectau diweddar.

Holodd yr Ymgeisydd b'un a yw'r Arolygiaeth yn ymwybodol o dempled safonol ar gyfer Adroddiad Sylffwr Hecsafflŵorid; bydd yr Arolygiaeth yn holi, ond mae'n annhebygol bod templed o'r fath yn bodoli.

(Nodyn Ôl-Gyfarfod: nid yw'r Arolygiaeth yn ymwybodol o dempled na chanllawiau safonol cyhoeddedig ar gyfer Adroddiad Sylffwr Hecsafflŵorid. Mae'n argymell bod yr Ymgeisydd yn adolygu prosiectau presennol perthnasol ar wefan Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol yr Arolygiaeth am enghreifftiau o sut yr aethpwyd i'r afael â hyn mewn ceisiadau DCO eraill.)

Nododd yr Ymgeisydd y gallai cais y Grid Cenedlaethol i ymestyn is-orsaf Bodelwyddan gael ei gyflwyno'n eithaf agos i'r cais ar gyfer y Datblygiad Arfaethedig. Mae'r Ymgeisydd yn cynnwys yr estyniad yn yr asesiad cronnol yn ei Ddatganiad Amgylcheddol yn seiliedig ar ddeunydd sydd ar gael o ymgynghoriad y Grid Cenedlaethol, ac mae'n bosibl y bydd yn cyflwyno gwybodaeth amgylcheddol ychwanegol ar ôl derbyn, os bydd angen. Cynghorodd

yr Arolygiaeth yr Ymgeisydd i esbonio ei ymagwedd at y mater hwn yn llythyr eglurhaol y cais ac o fewn y Datganiad Amgylcheddol.

Cydnabu'r Ymgeisydd y posibilrwydd o effeithiau cronnol rhwng Fferm Wynt Alltraeth Mona, Fferm Wynt Alltraeth Ynys Manaw a Fferm Wynt Alltraeth Morgan a Morecambe, a bydd yn mynd i'r afael â'r rhain yn ei asesiad o effeithiau cronnol.

## Materion Ymarferol yn ymwneud â'r DCO

Mae'r Ymgeisydd yn bwriadu cyflwyno ei DCO drafft yn ystod chwarter cyntaf 2024.

## Gwrandawiadau

Mynegodd yr Ymgeisydd bryderon ynglŷn â phroblemau â'r trawsgrifiadau MS Teams a gynhyrchwyd pan roddodd Partïon â Buddiant dystiolaeth yn Gymraeg ar gyfer prosiect Fferm Wynt Alltraeth Awel y Môr yn ddiweddar. Nododd yr Arolygiaeth bryderon yr Ymgeisydd a chadarnhaodd y byddai'n siarad â'i thîm TG i geisio dod o hyd i ddatrysiad.